



YSGOL GYNRADD ABERAERON



LLAWLYFR
MEITHRIN
2024

Croeso i / Welcome to Ysgol Gynradd Aberaeron

Mae Ysgol Gynradd Aberaeron yn ymfalchio mewn darparu amgylchedd ddysgu gyfeillgar a chreadigol sy'n meithrin a datblygu pob plentyn yn unigol. Rydym yn cynnig cyfleoedd i'n holl blant dyfu ym mhob agwedd o'u dysgu a'u datblygiad.

Yn y dosbarth Meithrin rydym yn ymdrechu i feithrin chwilfrydedd am y byd o'n cwmpas, hunanhyder, annibyniaeth a synnwyr o berthyn. Mae'r amgylchedd dysgu mewnol ac allanol yn hybu perthnasoedd cadarnhaol, yn cynnig profiadau dysgu amrywiol a chreadigol.

Edrychwn ymlaen at groesawu eich plentyn i'r dosbarth meithrin.

Ysgol Gynradd Aberaeron pride ourselves on providing a friendly and creative learning environment which nurtures each individual child. We offer all our children opportunities to grow in every aspect of their learning and development.

At dosbarth Meithrin we strive to instil curiosity about the world around us, self-confidence, independence and a sense of belonging. The indoor and outdoor areas promote positive relationships, whilst providing varied and creative learning experiences.

We look forward to welcoming your child to dosbarth Meithrin.

Oriau Ysgol / School Hours

Bydd drws mynedfa'r Cyfnod Sylfaen ar agor rhwng 8:45-9:00yb.

Os byddwch yn cyrraedd ar ôl 9 o'r gloch bydd angen i chi fynd i'r brif dderbynfa.

Bydd y sesiwn foreol yn gorffen am 11:45 a bydd y plant yn cael eu rhyddau o fynedfa Meithrin / Derbyn.

The Foundation Phase entrance will be open between 8:45-9:00am.

If you arrive after 9am, you will need to go to the Main Entrance.

Morning session finishes at 11:45. The children will be released from the Meithrin / Derbyn entrance.



Dewch i gwrdd â'r staff / Let's meet the staff

Enw: Anwen Lloyd-Hughes

Rôl: Pennaeth / Head teacher



Penblwydd: 3ydd o Fedi

Hoff fwyd:

Pasta



Anifail anwes: Ci bach o'r enw Twt.



Diddordebau:

Darllen, cerdded a chanu'r piano



Hoff lyfr plant:

Tân ar y Comin



Hoff liw: Porffor



Dewch i gwrdd â'r staff / Let's meet the staff

Enw: Iona Davies



Rôl: Athrawes Meithrin / Nursery Teacher
Dirprwy Bennaeth / Deputy Head
Cydlynnydd Anghenion Dysgu Ychwanegol
Additional Learning Needs Co-ordinator



Penblwydd: 10fed o Fai



Hoff fwyd:

Lasagne, mango, creision
Monster Munch a losin
Haribos.

Anifail anwes: Ci mawr du
o'r enw Macsen.



Diddordebau:

Mynd ar y beic, gwneud
jig-so a chwrdd â ffrindiau.

Hoff lyfr plant:

Y Dynion Bach Od,
Morfil y Storm a The Ugly
Five.



Hoff liw: Melyn



Dewch i gwrdd â'r staff / Let's meet the staff

Enw: Carys Freeman

Rôl: Athrawes CPA



Penblwydd: 9fed o Fai

Hoff fwyd:



Cyri, cinio rhost, losin a chacennau

Anifail anwes: Ci



Diddordebau:



Chwaraeon—rhedeg, beico a rygbi

Hoff lyfr plant:

Storïau Alun yr

Arth



Hoff liw: Gwyrdd



Dewch i gwrdd â'r staff / Let's meet the staff

Enw: Sioned Jones

Rôl: Cymhorthydd Dosbarth Meithrin



Penblwydd: 28 o Ragfyr



Hoff fwyd:

Stecen, cyri a chinio rhost

Anifail anwes: Ci



Diddordebau:

Mynd am dro a siopa



Hoff lyfr plant:

Tren Mawr Glas



Hoff liw: Piws



Dewch i gwrdd â'r staff / Let's meet the staff

Enw: Cara Hughes

Rôl: Cymhorthydd Dosbarth Meithrin



Penblwydd: 15 o Chwefror

Hoff fwyd:

Taten drwy'i chroen



Anifail anwes: Cwn a cheffylau



Diddordebau:

Merlota a ffermio



Hoff lyfr plant:

Rala Rwdins

Cyfres Cae Berllan



Hoff liw: Oren



Dewch i gwrdd â'r staff / Let's meet the staff

Enw: Debbie Parnell

Rôl: Cymhorthydd Dosbarth Meithrin



Penblwydd: 20 o Hydref

Hoff fwyd:

Cinio rhost



Anifail anwes: Ci o'r new

Rex



Diddordebau:

Garddio a cherdded



Hoff lyfr plant:

Mr Brig Ddyn



Hoff liw: Pinc Golau



Gwisg Ysgol / School Uniform



Crys polo coch a chrys chwys llwyd (wedi eu printio gyda logo'r ysgol)

Gaeaf: sgert / trowsus llwyd

Haf: ffrog goch gingham / sgert neu siorts llwyd

Dillad Ymarfer Corff—t-shirt plaen coch, shorts neu drowsus du

Dylid rhoi enw'r plentyn ar bob ddilledyn ac esgid sy'n dod i'r ysgol.

Red polo shirt and grey sweat shirt (printed with the school logo)

Winter: skirt / grey trousers

Summer: red gingham dress / grey skirt or shorts

PE Kit – plain red t-shirt, black shorts or trousers

Children's name must be clearly marked on every item of clothing including footwear.

Dilynwch y dolenni yma er mwyn archebu:

Follow these links to order:



Piranha Print

[Ysgol Gynradd Aberaeron Archives - GG Designs \(ggdesignsonline.com\)](http://ggdesignsonline.com)

Caffi Meithrin

O fis Medi ymlaen, bydd amser ffrwyth yn edrych ychydig yn wahanol yn y dosbarth Meithrin. Fel rhan o'n cwricwlwm, rydyn yn ffocysu ar ddatblygu sgiliau bywyd ac annibyniaeth. Felly, rydym wedi penderfynu, yn hytrach na phob plentyn yn dod â darn o ffrwyth a photel dŵr, byddwn yn rhedeg caffi yn y dosbarth. Bydd y plant yn helpu gyda "set up" y caffi, rhannu y bwyd ac wrth gwrs tacluso ar ddiwedd y sesiwn.

From September, fruit and snack time will look slightly different in dosbarth Meithrin. As part of our curriculum, we are focusing on developing life skills and independence. Therefore, we have decided that rather than each child bringing in their own fruit and water bottle, we will be operating a café in class. Children will help with setting up the café, sharing out the food and of course clearing up at the end of the session.

Gofynnwn yn garedig i bob plentyn dalu 30c/bore y maent yn mynychu = £1.50 am 5 bore. Gall hyn gael ei dalu drwy ParentPay ar ddechrau pob tymor.

We kindly ask each child pays 30p/morning they attend = £1.50/week for 5 mornings. This can be paid on ParentPay at the beginning of each term.

Tymor yr Hydref / Autumn Term: £21.90 (15 wythnos)

Tymor y Gwnawyn / Spring Term: £19.20 (13 wythnos)

Tymor yr Haf / Summer Term: £16.20 (11 wythnos)

Addaswch y nifer o ddiwrnodau a nodi'r swm cywir ar ParentPay.

Please adjust number of days accordingly and enter the correct amount.

Gwelir isod eisampl o fwydlen boreol. Byddwn wrth gwrs yn gwneud addasiadau ar gyfer alergeddau.

Here is a sample menu of what we will offer each morning. We will of course, provide alternatives for any allergies.

Dydd Llun	Dydd Mawrth	Dydd Mercher	Dydd Iau	Dydd Gwener
Tost	Plat ffrwythau e.e. pinafal, melon, ciwi	Caws a chracer. Rhesins	Plat llysiau e.e. ciwcymber, moron, papur	logwrt a ffrwythau
Toast	Fruit platter e.g. pineapple, melon, kiwi	Cheese and crackers. Raisins	Vegetable platter E.g. cucumber, carrots peppers	Yogurt and fruit

Sliperi / Slippers

Rydym wedi sylwi bod nifer o blant yn dewis tynnu eu hesgidiau yn y dosbarth gan eu bod yn teimlo'n fwy cyfforddus.

Felly, o fis Medi, rydym yn dechrau menter newydd yn y Meithrin. Gofynnir i staff a phlant wisgo sliperi yn y dosbarth. Mae hyn yn arfer cyffredin mewn ysgolion yng ngwledydd Llychlyn. Mae astudiaethau'n profi y gall gwisgo sliperi yn y dosbarth helpu myfyrwyr i deimlo'n fwy cyfforddus a gallu canolbwyntio'n well.

- Mae sliperi yn tueddu i fod yn dawelach nag esgidiau gwadn caled, gan gyfrannu at amgylchedd dysgu mwy heddychlon sy'n tynnu llai o sylw.
- Mae gwisgo sliperi yn fwy diogel na bod yn droednoeth.
- Mae dod â'u sliperi eu hunain a gofalu amdanynt yn dysgu cyfrifoldeb personol a sgiliau trefnu. Mae hefyd yn helpu plant i ddysgu tynnu a gwisgo esgidiau yn annibynnol.
- Gall gwisgo sliperi wneud i'r ystafell ddosbarth deimlo'n fwy cartrefol a chroesawgar, gan helpu'r plant i deimlo'n fwy cyfforddus a chanolbwyntio'n well.

Gofynnir i bob plentyn ddod â phâr o sliperi i'r ysgol – gwnewch yn siwr eu bod wedi'u labelu ag enw eich plentyn. Bydd y rhain yn cael eu cadw yn yr ysgol drwy gydol y tymor. Dewch â sliperi gwadn caled, dim "novelty" na "slipons".



We have noticed that many children choose to take their shoes off in class as they feel more comfortable.

Therefore, from September, we are starting a new initiative in Meithrin. Staff and children are asked to wear slippers in class. This is common practice in schools in Scandinavian countries. Studies prove that wearing slippers in class can help students feel more at ease and able to concentrate better.

- *Slippers tend to be quieter than hard-soled shoes, contributing to a more peaceful and less distracting learning environment.*
- *Wearing slippers is safer than being bare foot.*
- *Bringing and taking care of their own slippers teaches personal responsibility and organisation skills. Also helps children learn to take off and put on shoes independently.*
- *Wearing slippers can make the classroom feel more homelike and inviting, helping children to feel more relaxed and engaged.*

Each child is asked to bring a pair of slippers to school—please ensure they are labelled with your child's name. These will be kept in school throughout the term. Please bring hard soled slippers, no novelty or slip ons.

Boromi

Wyddech chi, erbyn i ni gyrraedd ein pumed penblwydd, fod 85% o'n hymennydd wedi cyrraedd ei lawn dwf? Fyddwn ni byth yn dysgu mwy nac yn gyflymach nag y gwnawn yn ein pum mlynedd gyntaf. Mae chwarae a sgwrsio yn rhan hanfodol i gynorthwyo'r ymennydd ddatblygu a thyfu.

Am y rheswm yma rydym yn falch o rannu'r newyddion ein bod am greu partneriaeth gyda Boromi i lansio ein llyfrgell chwarae ein hun. Bydd ein llyfrgell chwarae yn cynnwys casgliad o fapiau chwaraeon i'r plant eu benthyg i fynd adre a'u hymchwilio gyda chwi.

Bob Dydd Gwener bydd y plant yn cymryd eu tro i fynd â bag adre dros y penwythnos. Byddwn yn gwerthfawrogi petaech yn helpu eich plentyn gwblhau'r gweithgareddau amrywiol sydd yn y bag. Mae'r bagiau'n llawn offer i lunio gwahanol weithgareddau a chroeso i chwi hefyd lunio gweithgareddau ychwanegol eich hun.


Llyfrgell chwarae yw hon, felly bydd y bagiau yn newid yn fisol. Gofynnwn i chwi felly sicrhau fod pob item sydd yn y bag yn cael ei ddychwelyd i'r ysgol. Bydd rhaid codi tâl am unrhyw ddarnau sydd ar goll.

Byddai'n braf petaech yn medru rhannu lluniau o'ch plentyn yn cwblhau'r gweithgareddau. Gellir rhannu'r lluniau trwy e-bost : daviesi499@hwbcymru.net

Did you know that by the age of five 85% of our brains are fully grown? We never learn more, or faster than we do over our first five years. Playing and chatting together are fundamental parts of helping the brain to develop and grow. For this reason, we are thrilled to be sharing the news that we will be partnering with Boromi to launch our very own play library. Our play library will include a collection of play bags that children can borrow, take home and explore these with you.

Each Friday, children will take turns to bring a play bag home for the weekend. We would appreciate if you could help your child complete the various activities set out in the bag. The packs are full of equipment that can form various activities, you can come up with your own activities using the equipment or use the suggestions in the bag for ideas. As this is a play library, the bags are changed every month, therefore we ask that you ensure all items are replaced in the bags before returning to school. We will have to charge for any missing items.

We would appreciate if you could share some photos of your child completing these activities. Photos can be shared through email: daviesi499@hwbcymru.net



Ysgol Goedwig / Forest School

Llanerchaeron

Yn dilyn llwyddiant sesiynau'r tymor hwn, rydym yn falch iawn o gynnwys gweithgareddau Ysgol Goedwig i'n dosbarthiadau Meithrin a Derbyn ym mis Medi.

Byddwn yn ymweld â Llanerchaeron unwaith y mis (dyddiadau i'w cytuno ym mis Medi) ac yn treulio'r bore yn y goedwig. Gofynnwn yn garedig i chi gwrdd â ni ym maes parcio Llanerchaeron (rhwng 8.30 a 9 y bore). Bydd bus yn casglu plant dosbarth Derbyn a chlwb prynhawn, gan ddod â nhw yn ôl i'r ysgol am ginio - gofynnwn yn garedig am gyfraniad at y bus. Bydd plant meithrin y bore yn cael eu casglu gan rieni o faes parcio Llanerchaeron erbyn 11.45.

Mae manteision Ysgol Goedwig yn cynnwys gwell iechyd a lles corfforol a meddyliol, datblygu sgiliau cymdeithasol, datblygiad gwybyddol, ymwybyddiaeth amgylcheddol, annibyniaeth a hyder. Credwn y bydd y sesiynau hyn yn ychwanegiad gwerthfawr i'n dosbarth, gan gyfoethogi taith ddysgu ein plant.



Following the success of this term's sessions, we are delighted to include Forest School activities to our Meithrin and Derbyn classes in September.

We will visit Llanerchaeron once a month (dates to be agreed in September) and spend the morning in the woods. We kindly ask that you meet us at Llanerchaeron car park (between 8.30 and 9am). A bus will collect Derbyn class and afternoon club children, bringing them back to school for lunch—we kindly ask for a contribution for the bus. Morning nursery children will be collected by parents from Llanerchaeron car park by 11.45.

Benefits of Forest School include enhanced physical and mental health and wellbeing, developing social skills, cognitive development, environmental awareness, independence and confidence, holistic learning approach.

We believe that these sessions will be a valuable addition to our class, enriching our children's learning journey.

Amser stori / Story time

Fel y gwyddoch, mae darllen i blant ifanc yn llesol iawn i ddatbylygiad gwybodol ac emosiynol e.e. datblygu sgiliau ieithyddol a sgiliau llenyddol, ysbrydoli creadigrwydd a dychymyg, adeiladu empathi a sut i drin teimladau heriol.

Bob dydd Gwener bydd eich plentyn yn mynd adref â ffeil yn cynnwys llyfr stori. Mae hyn yn gyfle i chi ddarllen i'ch plentyn, trafod y lluniau a datblygu sgiliau llafar eich plentyn.

Gofynnwn eich bod yn dychwelyd y ffeil erbyn y dydd Mercher canlynol.



As you're aware, reading to young children has multiple benefits, including cognitive and emotional development, such as developing language skills and literacy skills, inspiring creativity and imagination, building empathy, and learning how to handle challenging feelings.

Every Friday your child will bring home a file containing a story book. This is an opportunity for you to read to your child, discuss the pictures and also develop their language skills.

We ask that the file is returned by the following Wednesday.

Clwb Brecwast / Breakfast Club

Mae'r Clwb Brecwast ar agor yn foreol o 8:00 tan 8:35.
Defnyddiwch y brif fynedfa ar gyfer y Clwb Brecwast.
Gall eich plentyn ddewis o dost neu grawnfwyd a sudd.

Cost y ddarpariaeth yma yw:

8 yb–8.15 yb am ddim

8.15 yb–8.35 yb £1

Breakfast Club is open daily between 8:00 and 8:35.

Enter through the main school entrance.

Your child can choose from toast or cereal and juice.

Cost for this provision is:

8am–8.15am free

8.15am–8.35am £1



Cyswilt Ysgol a Chartref

School and Home Contact



Nid ydym yn derbyn arian parod yn yr ysgol felly mae angen talu am Gaffi Meithrin, cinio ysgol, triapiau, ac ati drwy "ParentPay". Bydd angen lawrlwytho'r app a chofrestri.

We are a cashless school thus Caffi Meithrin, school dinners, trips etc need to be paid through "ParentPay".

You will need to download the app and register.

Rydym yn defnyddio "Parent Mail" i gysylltu â rhieni.

Bydd angen lawrlwytho'r app a chofrestri.

We use "Parent Mail" to contact parents.



You will need to download the app and register.



Rydym yn defnyddio "Classcharts" er mwyn rhoi pwyntiau clod neu i anfon negeseuon sydyn, Bydd angen lawrlwytho'r app a mewngofnogi.

We use "Classcharts" to award merit points and to send quick messages. You will need to download the app and log in.

Ffrindiau'r Ysgol / Friends of the School

Pwyllgor o rieni'r ysgol sydd yn cwrdd unwaith y mis i helpu drefnu gweithgareddau i'r plant ac i godi arian.

Mae'r pwyllgor yn hanfodol i brynu adnoddau ac i dalu am deithiau.

Dewch o hyd iddynt ar Facebook



A committee of parents who meet once a month to help arrange activities for the children and to raise money for the school.

The committee's fund is essential for buying new resources and paying for visits

Find them on Facebook